

Trin syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost) drwy ysgogiad dwfn yr ymennydd

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio ysgogiad dwfn yr ymennydd yn y GIG i drin pobl â syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost). Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn am nad oes llawer o wybodaeth hyd yn hyn am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio syndromau poen gronig na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi ar hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Dengys tystiolaeth bresennol am ddiogelwch ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost) fod risgiau difrifol ond hysbys. Mae tystiolaeth bod y driniaeth yn gweithio i rai cleifion lle nad yw dulliau eraill o reoli poen yn gweithio. Felly, gellir cynnig y driniaeth hon fel mater o drefn i'r cleifion hyn, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylid dweud wrth gleifion na fydd y driniaeth yn rheoli eu symptomau o bosibl a dweud wrthynt am yr holl risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r driniaeth, gan gynnwys y risg fach o farwolaeth.

Dim ond ar gyfer cleifion â syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost) nad yw triniaethau eraill wedi llwyddo i'w rheoli y dylid ei defnyddio. Dylai cleifion gael eu dewis gan dîm sy'n arbenigo mewn rheoli poen.

Sylwadau eraill gan NICE

Roedd yn anodd i NICE wneud penderfyniad gan fod yr astudiaethau sydd ar gael ar gyfer grwpiau gwahanol o gleifion ac yn defnyddio dulliau gwahanol. Hefyd, cafodd llawer ohonynt eu cyhoeddi flynyddoedd yn ôl, ac mae technegau ysgogiad dwfn yr ymennydd wedi datblygu ers hynny. Nid oedd digon o dystiolaeth i benderfynu pa mor dda yr oedd wedi gweithio ar gyfer grwpiau penodol o gleifion.

Nododd NICE fod yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Dywedodd rhai cleifion yr oedd y driniaeth wedi lleddfu eu poen yn rhannol fod hyd yn oed hynny wedi gwella ansawdd eu bywyd yn sylweddol.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer syndromau poen gronig. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost)

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Yn aml, nid yw pobl yn deall syndromau poen gronig. Gellir profi poen unrhyw le yn y corff, gall bara am gyfnod hir a gall gael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd yr unigolyn. Mae achosion syndromau poen gronig yn amrywio a gallant fod yn gymhleth. Gellir defnyddio amrywiaeth o driniaethau corfforol, seicolegol a/neu gyffuriau yn dibynnu ar yr achos a'r union symptomau. Mae triniaethau i ysgogi rhan o'r ymennydd o'r enw'r cortecs motor, neu nerfau yn yr asgwrn cefn neu mewn rhannau eraill o'r corff (nerfau perifferol) hefyd wedi'u defnyddio i drin syndromau poen gronig nad ydynt yn ymateb i driniaethau eraill.

Mae'r driniaeth hon yn cynnwys ysgogi rhannau penodol o'r ymennydd gan ddefnyddio electrodau. Caiff tyllau bach eu drilio i mewn i'r penglog a gosodir electrodau parhaol mewn mannau a ddewiswyd yn ofalus yn ddwfn yn yr ymennydd gyda chymorth cyfrifiadur. Gwneir hyn fel arfer tra bod y claf o dan anesthetig lleol a/neu wedi'i lonyddu, ond weithiau defnyddir anesthetig cyffredinol. Cynhelir triniaeth brawf i ganfod a oes unrhyw broblemau. Caiff gwifrau o'r electrodau eu gwrthio o dan y croen a'u cysylltu â dyfais o'r enw 'generadur curiad' a osodir ar y frest, sy'n rheoli'r ysgogiad trydanol.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod ysgogiad dwfn yr ymennydd yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 43 o gleifion â phoen yn dilyn strôc, dywedodd tri chlaf allan o 12 (25%) a gafodd driniaeth ysgogiad dwfn yr ymennydd a 15 allan o 31 o gleifion (48%) a gafodd driniaeth ysgogi yn y cortecs motor fod eu poen wedi'r lleddfu mwy na 60%.

Mewn astudiaeth o 112 o gleifion â math o boen sy'n gysylltiedig â niwed i'r nerf o'r enw poen ddadafferoleiddiol, dywedodd 42 allan o 89 o gleifion nad oedd ganddynt unrhyw boen o gwbl a dywedodd 28 allan o 89 o gleifion fod ganddynt lai o boen ar ôl hyd at chwe blynedd. Nid oedd y driniaeth wedi helpu 19 o gleifion.

Mewn astudiaeth arall, gwelwyd bod 50 allan o 65 o gleifion â math o boen nerf o'r enw poen berifferol yn gallu rheoli eu poen drwy ddefnyddio'r ddyfais.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y ffactorau llwyddiant allweddol yn cynnwys lleihau amllder a difrifoldeb y boen, gwella gallu corfforol a meddyliol ac ansawdd bywyd, a lleihau'r angen am feddyginiaeth.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 141 o gleifion â naill ai boen ddadafferoleiddiol neu fath arall o boen nerf o'r enw poen nociceptaid, cafodd pum claf

waedlif yn yr ymennydd, (gwnaeth dau wella, cafodd dau niwed i'r ymennydd a arweiniodd at anabledd sylweddol a bu farw un).

Mewn astudiaeth o 122 o gleifion, bu farw dau glaf. Bu farw un ohonynt oherwydd gwaedlif a chwyddo yn yr ymennydd, ac un yn dilyn trawiad ar y galon naw wythnos ar ôl gwaedlif yn yr ymennydd yn sgil y driniaeth.

Yn yr astudiaeth o 141 o gleifion, cafodd 17 heintiau. Ni ddisgrifiwyd y driniaeth ar gyfer tri chlaf, ond roedd yn llwyddiannus mewn 14 o gleifion, er y bu'n rhaid tynnu electrodau 11 o gleifion. Dangosodd yr astudiaeth o 122 o gleifion heintiau mewn chwe chlaf, a gafodd eu trin yn llwyddiannus â gwrthfotigau, er y bu'n rhaid tynnu'r system ysgogi yn achos dau glaf.

Yn yr astudiaeth o 141 o gleifion, roedd y system ysgogi wedi dirywio yn achos 10 o gleifion. Fe'i tynnwyd yn gyfan gwbl yn achos pum claf a chafodd pump ohonynt system newydd yn lle'r hen un. Dim ond gyda fersiynau cynnar o'r system y gwelwyd yr electrodau'n symud.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod problemau posibl yn cynnwys poen newydd yn datblygu pe bai'r gwifrau'n symud, newidiadau mewn hwyliau, sgil-effeithiau dros dro ysgogi fel problemau lleferydd a ffitiau.

Mewn egwyddor, gallai problemau eraill gynnwys math o strôc o'r enw cnawdnychiant ymenyddol.

Rhagor o wybodaeth am syndromau poen gronig

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar boen, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cyngorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'Ysgogiad dwfn yr ymennydd ar gyfer syndromau poen gronig (ac eithrio pen tost)'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG253

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8367-4

N2533 1P March 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes.

No reproduction by or for commercial organisations, or

for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.